

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Ebrill 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15 0300 200 6565
SeneddPPIA@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(09:15 – 09:30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

2 Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant – sesiwn ynghylch cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru

(09:30 – 10:30)

(Tudalennau 1 – 26)

Llywodraeth Cymru

Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant.

Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi

Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Plant, Chwarae a Blynnyddoedd

Cynnar

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(5)-11-18 – Papur 1 – Llywodraeth Cymru – Y Cynnig Gofal Plant i

Gymru

3 Papurau i'w nodi

3.1 Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – cyllid ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig

(Tudalennau 27 – 33)

Dogfennau atodol:



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

CYPE(5)-11-18 – Papur i'w nodi 1

- 3.2 Llythyr at y cadeirydd gan y cynghorydd rob jones (arweinydd cyngor castell-nedd port talbot) ynglŷn â'r ddarpariaeth dysgwr sipsiwn, roma a theithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig**

(Tudalennau 34 – 35)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-11-18 – Papur i'w nodi 2 (Saesneg yn unig)

- 3.3 Ymchwiliad i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol – gwybodaeth bellach gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn dilyn y cyfarfod ar 8 Mawrth**

(Tudalen 36)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-11-18 – Papur i'w nodi 3 (Saesneg yn unig)

- 3.4 Ymchwiliad i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol – gwybodaeth bellach gan Ein Rhanbarth ar Waith yn dilyn y cyfarfod ar 8 Mawrth**

(Tudalennau 37 – 38)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-11-18 – Papur i'w nodi 4 (Saesneg yn unig)

- 3.5 Gohebiaeth y Pwyllgor ynglŷn â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)**

(Tudalennau 39 – 42)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-11-18 – Papur i'w nodi 5

CYPE(5)-11-18 – Papur i'w nodi 6

- 3.6 Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Safon dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru**

(Tudalennau 43 – 45)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-11-18 – Papur i'w nodi 7

- 3.7 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Dod â'r Grant Gwisg Ysgol i ben o 2018-19**

(Tudalennau 46 – 48)

Dogfennau atodol:

CYPE(5) -11-18 – Papur i'w nodi 8

3.8 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 22 Mawrth

(Tudalennau 49 – 59)

Dogfennau atodol:

CYPE(5) –11–18 – Papur i'w nodi 9

3.9 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – rhoi cwricwlwm y cyfnod sylfaen ar waith

(Tudalennau 60 – 63)

Dogfennau atodol:

CYPE(5) –11–18 – Papur i'w nodi 10

3.10 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Argaeledd gwerslyfrau

(Tudalennau 64 – 65)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–11–18 – Papur i'w nodi 11

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(10:30)

5 Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru) – Ystyried y ffordd o fynd ati

(10:45 – 11:00)

Dogfennau atodol:

Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru) – Ystyried y ffordd o fynd ati (Saesneg yn unig)

6 Ymchwiliad i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol – trafod y materion allweddol

(11:00 – 12:00)

(Tudalennau 66 – 80)

Papur preifat

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–11–18 – Papur 3

7 Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit – trafod y llythyr gan y Llywydd
(12:00 – 12:15) (Tudalennau 81 – 82)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-11-18 – Papur 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Oddi wrth: Llywodraeth Cymru
Dyddiad: 18 Ebrill 2018
Lleoliad: Senedd Bae Caerdydd
Teitl: Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Cefndir

Bydd y Cynnig Gofal Plant yn darparu 30 wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i blant 3 a 4 oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Elfen addysg gynnar y cynnig yw'r hawl cyffredinol cyfredol, sydd ar gael o dan ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen Meithrin (CSM). Cynlluniwyd elfen gofal plant y cynllun yn benodol i helpu rhieni i allu ymgymryd â gwaith am dâl ac mae'n rhan o raglen ehangach o gymorth ar gyfer cyflogaeth sydd i'w gweld yng nghynllun strategol pum mlynedd Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen*. Mae manylion am bwy sy'n gymwys yn Atodiad 1.

Mae tystiolaeth glir yn dangos mai gwaith â thâl yw'r llwybr gorau i ddianc o dlodi¹ a'r amddiffyniad gorau yn erbyn tlodi. Ceir cydnabyddiaeth gynyddol hefyd, hyd yn oed pan fo oedolion yn cael eu cefnogi i gael gwaith, y gallant fynd o fod mewn tlodi di-waith i dlodi mewn gwaith². Yng Nghymru, mae mwyafrif y plant mewn tlodi incwm cymharol yn byw mewn cartref lle mae o leiaf un person yn gweithio³. Bydd y cynnig yn helpu i drechu tlodi mewn gwaith drwy gefnogi rhieni i gael gwaith llawn amser, cefnogi pobl sy'n gweithio'n rhan-amser i weithio mwy o oriau, cefnogi enillwyr ail gyflog i weithio a galluogi teuluoedd sy'n gweithio i gadw mwy o'u cyflog at ddibenion eraill.

Er bod y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru wedi dadlau yn ei adroddiad yn 2016 na fyddai'r polisi yn cael effeithiau sylweddol ar incwm net, tlodi nac ymddygiad gwaith teuluoedd â phlant⁴, mae ymchwil arall yn awgrymu'n wahanol. Er enghraifft, canfu adroddiad *Starting Strong 2017* y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) y canlynol "*affordable and quality early education and care with an adequate number of hours per week can contribute to increased participation of women in the labour force*" a bod "*the relationship between mothers' labour market participation and enrolment rates in formal childcare is strong*"⁵.

¹ Sefydliad Joseph Rowntree (2016) UK poverty: Causes, costs and solutions. Adroddiad llawn ar gael yn: <https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-causes-costs-and-solutions>

² MacInnes T, Aldridge H, Bushe S, Kenway P a Tinson A (2013) *Monitoring Poverty and Social Exclusion*, Sefydliad Joseph Rowntree

³ Plant yng Nghymru (2014) Tlodi ymysg plant a theuluoedd yng Nghymru: Cipolwg ar y prif faterion a godwyd gan deuluoedd <https://www.childreninwales.org.uk/.../children-and-families-in-poverty-in-Wales.pdf>

⁴ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) *Childcare Policy Options for Wales*

⁵ OECD (2017) *Starting Strong 2017: Key OECD Indicators on Early Childhood Education and Care*

Darparu'r Cynnig

Cychwynnwyd profi'r cynnig mewn saith Awdurdod Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ym mis Medi 2017. Y rhain yw Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Gwynedd ac Ynys Môn, sy'n gweithio ar dreial ar y cyd. Mae'r cynnig ar gael ar draws Blaenau Gwent i gyd ac mewn rhai ardaloedd peilot yn yr awdurdodau eraill hyd yn ddiweddar.

Mae plentyn yn dod yn gymwys am elfen gofal plant y cynnig o'r tymor ar ôl eu penblwydd yn dair oed, yn unol â'r trefniadau ar gyfer addysg gynnar. Mae hawl wedi'i gapio ar 30 awr yr wythnos, gyda'r swm o ofal plant yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Er enghraifft, os yw Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar yn cynnig 10 awr o addysg gynnar, mae 20 awr o ofal plant ar gael. Er nad oes rhaid i rieni gymryd dwy elfen y cynnig ni allant newid addysg am ofal plant na gofal plant am addysg.

Darparwyd canllawiau i'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ym Mehefin 2017. Ymysg pethau eraill mae'r canllawiau'n egluro'r canlynol at ddibenion gweithredu cynnar:

- mae'n rhaid i'r rhiant a'r plentyn fyw o fewn ardal beilot;
- yr hawl yw 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yn ystod 39 wythnos o dymor yr ysgol a 30 awr o ofal plant am 9 wythnos yn ystod gwyliau ysgol;
- ni chyflwynwyd unrhyw newidiadau i'r ffordd o ddarparu elfen addysg gynnar y cynnig, gyda phob Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar yn parhau i ddyrannu llefydd;
- gall unrhyw ddarparwr gofal plant ddarparu elfen gofal plant y cynnig, os ydynt yn dymuno, cyn belled â'u bod wedi'u cofrestru ac yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (neu Ofsted os ydynt yn Lloegr);
- nid oes cyfyngiadau ar oriau neu ddyddiau'r wythnos pryd y gall rhieni ddefnyddio elfen gofal plant y cynnig;
- gall rhieni ddefnyddio uchafswm o ddau leoliad gofal plant y dydd yn ogystal â'u darparwr addysg gynnar.

Mae'r canllawiau'n cynnwys manylion am y gyfradd dalu ar gyfer y cynnig hefyd a sut gall Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ddarparu'r cynnig.

Roedd profiadau Addysg Gynnar, Dechrau'n Deg a chynnig gofal plant Lloegr yn awgrymu na fyddai pob rhiant cymwys yn ymgeisio am y cynnig, gyda rhaglenni ar sail galw yn cymryd amser i sefydlu eu hunain yn llawn. O ganlyniad, ni phennwyd targedau penodol ar gyfer niferoedd, gan ganolbwyntio'n hytrach ar brofi'r cynnig yn gynnar er mwyn deall sut mae'n gweithio i rieni a darparwyr a dysgu gwersi o weithredu'n gynnar cyn cyflwyno'n genedlaethol.

Gweithredu Cynnar - Cynnydd

Hyd yn hyn, mae'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar wedi derbyn dros 2,400 o geisiadau ar gyfer elfen gofal plant y cynnig, gyda thros 2,000 o blant yn derbyn gofal plant a ariennir. Er mai dim ond chwech mis sydd ers dechrau

gweithredu'n gynnar rydym wedi gweld bod diddordeb a niferoedd yn amrywio rhwng yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Nid yw'r holl rieni cymwys wedi ymgeisio, mae rhai rhieni sydd wedi ymgeisio wedi dewis peidio â manteisio ar eu gofal plant a ariennir wedyn, ac nid yw eraill yn defnyddio'r swm llawn sydd ar gael iddynt. Mae sylwadau cynnar i'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar yn cynnwys y canlynol:

- ddim yn ymwybodol neu'n deall manylion y cynnig;
- yn amharod i symud plant o ofal teulu a ffrindiau;
- penderfynu peidio symud plant o leoliadau gofal plant nad ydynt yn darparu'r cynnig;
- ddim yn defnyddio eu hawl yn llawn gan eu bod yn cyfuno'r gofal plant a ariennir gyda gofal anffurfiol arall fel gofal gan ffrindiau a theulu.

Bwriedir gwneud rhagor o ymchwil i ddeall ymddygiad rhieni fel rhan o waith gwerthuso'r cynlluniau peilot. Byddwn yn gwneud mwy o waith ymchwil hefyd i'r ysgogwyr sy'n sail i ddewisiadau rhieni ynghylch defnyddio gofal plant neu beidio, a'r math o ofal plant maent yn ei ddewis. Bydd hyn yn ein helpu ni i gefnogi'r sector gofal plant i addasu a dod yn fwy cynaliadwy cyn gweithredu'n llawn, a gwneud mân newidiadau i fodolau ar lefelau niferoedd tebygol.

Darparwyr Gofal Plant a Gweithredu Cynnar

Penderfynwyd caniatáu i bob darparwr gofal plant sydd wedi cofrestru ac sy'n cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ddarparu'r cynnig yn ystod gweithredu cynnar, hyd yn oed os ydynt wedi'u lleoli y tu allan i ardal beilot, er mwyn lleihau'r effaith ar y sector a'n galluogi i brofi amodau'r farchnad. Nid oeddem am orfodi rhieni i ddewis o blith nifer cyfyngedig o ddarparwyr, na fyddai eu lleoliad yn addas i'w gofynion o bosibl, na pheryglu cynaliadwyedd darparwyr y tu allan i ardaloedd peilot.

Mae adborth hyd yn hyn wedi dangos mai dyma'r dull cywir; gyda rhieni'n gwerthfawrogi'r dewis y mae hyn yn ei roi ynglŷn â defnyddio gofal plant yn agos at eu cartref neu eu gwaith. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gallu i leoli brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd hefyd. Mae adborth gan ein Hawdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar y dull hwn wedi bod yn gadarnhaol hefyd, yn enwedig o ran hyblygrwydd darpariaeth drawsffiniol.

Fodd bynnag, mae'r gofyniad i gofrestru ac arolygu, sy'n bwysig o ran sicrhau ansawdd cyffredinol y gofal a ddarperir a diogelwch y plant, wedi golygu nad yw darparwyr o dan Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Arolygiaeth Gofal Cymru, fel nanis, yn gallu darparu'r cynnig. Mae'r gofyniad hwn yn golygu bod rhaid darparu'r gofal plant o dan y cynnig yn unol â'r ddeddfwriaeth lywodraethu hefyd. Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 yn datgan yn glir nad yw gwarchodwr plant yn gweithredu fel gwarchodwr plant dros blentyn sy'n berthynas iddo. Diwygiwyd y Gorchymyn yn 2016, ond ni chyflwynwyd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth benodol honno.

Cynhelir adolygiad o'n safbwynt ar bwy all a phwy na all ddarparu gofal plant o dan y cynnig, a'r holl amodau uchod, cyn ei weithredu'n llawn.

Mae darparwyr yn derbyn £4.50 yr awr am elfen gofal plant y cynnig. Wrth bennu'r gyfradd hon aseswyd yr effaith yn erbyn y cyfraddau y mae darparwyr yn eu codi ar hyn o bryd, yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru drwy eu Hunanasesiad o Wasanaeth. Cyfradd gyllido sengl ar draws y saith awdurdod lleol sy'n weithredwyr cynnar yw hon, sy'n sicrhau bod y cynnig gofal plant yn eglur a chyson i bob rhiant a darparwr. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod bod gwahanol ddarparwyr gofal plant yn cynnig gwahanol wasanaethau, nid yw'r gyfradd hon yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â darparu bwyd neu gludo plant. Gall darparwyr godi hyd at £7.50 y dydd am fwyd a byrbrydau, a chyfraddau teg am drafnidiaeth a nwyddau fel cewynnau a chlytiau diheintio. Ni chaniateir unrhyw ffioedd atodol ychwanegol.

Mae'r adborth gan ddarparwyr ar y gyfradd o £4.50 wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, a chrosawyd yr hyblygrwydd i godi am fwyd a thrafnidiaeth yn unol â'u model busnes a'r gwasanaethau maent yn eu darparu hefyd.

Mae taliadau ar gyfer elfen addysg gynnar y cynnig yn parhau i fod yn fater i awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer hyn drwy'r Setliad Llywodraeth Lleol (grant cymorth refeniw) yn bennaf, gyda rhywfaint o gyllid ychwanegol drwy'r Grant Gwella Addysg i gefnogi cymarebau staff i ddysgwyr. Rydym wrthi'n adolygu'r cyfraddau a delir gan awdurdodau lleol am addysg gynnar yn sgil sylwadau gan ddarparwyr.

Prosesau Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar

Mae pob Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar wrthi'n prosesu ceisiadau am y cynnig yn eu hardaloedd pilot a chadarnhau cymhwysedd. Mae rhai wedi cyflwyno gwiriwr cymhwysedd ar-lein sy'n hidlo mwyafrif y rhieni anghymwys; mae gan rai systemau ymgeisio cyfan gwbl ar-lein; ac mae rhai'n gofyn am geisiadau copi caled y gellir eu lawrlwytho o'u gwefannau. Mae pob un yn gofyn am ryw fath o ddogfennau gan rieni i brofi cymhwysedd, er y gellir sganio a chyflwyno hyn yn electronig yn y rhan fwyaf o achosion.

Soniodd y saith Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar am lefel y gweinyddu oedd yn ofynnol yn yr ymarfer gwersi a ddysgwyd a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018. Roedd hyn wedi bod yn fwy na'r disgwyl, gyda baich gweinyddol sylweddol o ran asesiadau cychwynnol, a chynnal hapwiriadau wrth ail-gadarnhau. Mae'r canfyddiadau hyn eisoes wedi'u hystyried wrth i ni feddwl am y dull o brosesu ceisiadau a chadarnhau cymhwysedd wrth weithredu'n genedlaethol.

Gweithredu Cynnar – Monitro a Gwerthuso

Cynhelir gwerthusiad annibynnol trylwyr o weithredu cynnar. Comisiynwyd ARAD a NatCen i gynnal gwerthusiad o flwyddyn gyntaf gweithredu cynnar, gydag opsiwn i ymestyn eu contract ar gyfer yr ail flwyddyn. Bydd adroddiad gwerthuso'r flwyddyn gyntaf yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref 2018.

Prif nodau'r gwerthusiad yw penderfynu:

- pa mor effeithiol mae'r cynnig yn cael ei ddarparu i blant a rhieni yn yr ardaloedd gweithredu cynnar a darparu gwarsi i lywio darpariaeth y dyfodol;
- pa effaith mae'r cynnig yn ei chael ar gyflogadwyedd, lles ac incwm gwario (cysylltiedig â thlodi) rhieni – tebygol o fod yn gyfyngedig yn y flwyddyn gyntaf;
- pa effaith mae'r cynnig yn ei chael ar y sector gofal plant, gan edrych ar yr effaith ar wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant, newidiadau i arferion busnes ac effaith ymyrraeth ar y farchnad gofal plant.

Bydd y gwerthusiad yn ystyried proses ac effaith y cynnig gofal plant yn y flwyddyn gyntaf. Bydd y gwerthusiad o'r broses yn edrych ar ddarparu a chysoni'r cynnig gyda pholisïau a gweithgareddau eraill a nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Bydd y gwerthusiad o'r effaith yn edrych ar effaith y cynnig ar ddewisiadau cyflogaeth, incwm a chyfoeth. Mae yna ofyniad penodol i ystyried effaith y cynnig ar y gallu i gael gofal plant cyfrwng Cymraeg a'r galw amdano yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.

Ochr yn ochr â'r gwerthusiad mae gennym raglen fonitro ar gyfer y cynnig, sy'n gofyn i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar gyflwyno data bob mis a thymor. Mae'r data monitro'n cefnogi'r gwaith o reoli'r rhaglen a bydd yn cyfrannu at y gwerthusiad annibynnol.

Gweithredu Cynnar - Ehangu

Bwriedir gweithredu'r cynnig yn genedlaethol ym mis Medi 2020. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu ehangu'n rhaglen gweithredu cynnar mewn camau cyson, a darparu'r cynnig yn rhannol o leiaf ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru cyn ei gweithredu'n genedlaethol ym mis Medi 2020. Bydd y dull hwn yn galluogi mwy o deuluoedd i fanteisio ar y gofal plant a ariennir, yn rhoi'r amser angenrheidiol i'r sector gofal plant ehangu'n gynaliadwy, a'n galluogi ni i brofi'r cynnig mewn amrywiaeth o farchnadoedd lleol ledled Cymru.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru'n cynnwys £25 miliwn i gefnogi'r gwaith ehangu hwn yn 2018-19 a £45 miliwn yn 2019-20. Bydd manylion gwaith ehangu'n rhaglen weithredu cynnar, yn cynnwys lleoliadau penodol, yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn y gwanwyn, yn amodol ar gytundeb gydag awdurdodau lleol unigol. Bydd awdurdodau newydd yn dechrau darparu o fis Medi 2018 ymlaen.

Cynnydd tuag at Weithredu'n Genedlaethol

Mae amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu y gallem ddisgwyl i tua 40,000 o blant fod yn gymwys am y cynnig ledled Cymru bob blwyddyn. O ystyried y baich gweinyddol a brofir gan Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar hyn o bryd, a'r awydd i osgoi nifer o wahanol ddulliau o asesu, rydym wedi penderfynu y byddai'n well cyflwyno un system genedlaethol ar gyfer asesu ceisiadau. Ynghyd â datblygu'r system hon mae angen i ni wneud rhagor o waith gyda'r sector gofal plant i wella ei gapasiti a sicrhau ei fod yn barod ar gyfer y cynnig.

System Ymgeisio Genedlaethol

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth yn fuan i hwyluso'r gwaith o rannu data sy'n berthnasol i ddatblygu system ymgeisio a gwirio cymhwysedd genedlaethol mewn perthynas â'r cynnig. Ein bwriad yw cael system ar-lein yn bennaf, er y bydd hi'n bosibl gwneud cais all-lein hefyd, gyda llinell gymorth bwrpasol ar gael. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael wrth gyflwyno'r cynnig.

Ymgysylltu â Rhieni a Darparwyr Gofal Plant

Lansiwyd yr ymgyrch #TrafodGofalPlant ym mis Awst 2016, gyda'r bwriad o ymgysylltu â rhieni a darparwyr ar y cynnig i Gymru. Nod Cam 1 yr ymgyrch oedd:

- ddeall yr heriau cyfredol y mae rhieni a darparwyr yn eu hwynebu wrth dderbyn neu ddarparu gofal plant;
- deall pa gamau a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod y cynnig mor hygyrch â phosibl;
- deall beth sy'n bwysig i rieni a darparwyr am y cynnig.

Drwy gam cyntaf ein hymgyrch #TrafodGofalPlant ymgysylltwyd â thros 6,500 o rieni a darparwyr. Darparodd yr ymatebion o'r cam hwn ddata cyfoethog ar farn rhieni a darparwyr, a ddefnyddiwyd i lywio penderfyniadau cyn gweithredu'r cynnig yn gynnar o fis Medi 2017 ac a fydd yn helpu i ddatblygu'r cynnig gofal plant ymhellach dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Rydym wedi dechrau ail gam ein hymgyrch ymgysylltu #TrafodGofalPlant yn ddiweddar, lle byddwn yn ymgysylltu â darparwyr gofal plant yn benodol er mwyn iddynt roi eu barn ar y cynnig.

Capasiti'r Sector Gofal Plant

Yn 2016 buom yn gweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) i edrych ar gapasiti'r sector gofal plant ledled Cymru⁶. Roedd y dadansoddiad yn defnyddio data Arolygiaeth Gofal Cymru ar leoliadau darparwyr wedi'i fapio yn erbyn amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Dangosodd yr adroddiad nad oes digon o ddarpariaeth gofal plant ar gael ar hyn o bryd pe bai'r holl blant sy'n gymwys yng Nghymru am fanteisio ar y cynnig. Fodd bynnag, dim ond galw posibl a galw a amcangyfrifir a ddangosir gan yr adroddiad. Efallai fod nifer o ffactorau'n cyfrannu at y manau lle na cheir darpariaeth gofal plant yng Nghymru, ac mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall ymddygiad rhieni sy'n cyfrannu at y ffactorau hyn ac i gael dealltwriaeth well o'r galw gwirioneddol am ofal plant ffurfiol.

Yn 2016, comisiynwyd Alma Economics hefyd i gynnal adolygiad o'r sector gofal plant yng Nghymru⁷. Wrth edrych ar dwf y sector dros y blynyddoedd diwethaf a'i botensial i ehangu, canfu'r adroddiad:

⁶ <http://gov.wales/statistics-and-research/childcare-capacity-wales/?skip=1&lang=cy>

⁷ <http://gov.wales/statistics-and-research/review-childcare-sector/?skip=1&lang=cy>

“Tyfodd y sector dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae ganddo'r potensial i ehangu ymhellach. Er bod llawer o'r darparwyr yn ein harolwg (yn enwedig gwarchodwyr plant) yn pwysleisio bod rhwystrau a risgiau i ehangu, yn gyffredinol teimlai cyfranogwyr y sector y byddent yn gallu ateb y galw cynyddol petaent yn cael digon o amser i wneud yr addasiadau angenrheidiol (h.y. recriwtio staff newydd, uwchraddio eiddo)”.

Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg

Un o egwyddorion arweiniol y Cynnig yw y dylai'r holl rieni sy'n gweithio allu defnyddio eu hawl yn unol â'u dyheadau ac anghenion eu teulu. Mae hyn yn cynnwys y gallu i dderbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg. Rydym am weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu atebion ymarferol i rwystrau y gall rhieni eu hwynebu wrth geisio cael y gofal plant maent ei angen i allu gweithio, yn cynnwys sicrhau digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae'r cynnig yn cysylltu'n agos â dyheadau *Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr*⁸, ein strategaeth iaith Gymraeg. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu, gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Mae gan y sector addysg gynnar a gofal plant rôl sylweddol yn y cyd-destun hwn, a dywed Cymraeg 2050:

“Y nod hirdymor ar gyfer ein darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa lle mae plant dan bump oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.”

Mae'r strategaeth yn mynd ymlaen i nodi deg newid trawsnewidiol sydd angen eu rhoi ar waith er mwyn cyrraedd y targedau. Mae'r cyntaf o'r rhain yn canolbwyntio ar ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, gan agor 150 o grwpiau meithrin newydd dros y degawd nesaf er mwyn hwyluso dilyniant di-dor i addysg cyfrwng Cymraeg.

Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth ddibynadwy ar faint o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael ledled Cymru⁹ i benderfynu a ellir cyflawni'r ymrwymiad hwn ai peidio. Fodd bynnag, mae'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan awdurdodau lleol a'r adborth gan yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar yn dangos nad oes digon o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, heblaw mewn rhannau o'r Gogledd-orllewin. Mae sylwadau gan rieni yn yr ymgyrch #TrafodGofalPlant yn cadarnhau hyn.

Gan gydnabod yr her hon, mae rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2017-2021 yn cynnwys targedau i:

- gweithredu'r Cynnig Gofal Plant ar draws Cymru, gan sicrhau mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg dan nawdd y llywodraeth, a chryfhau'r ddarpariaeth

⁸ <http://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy>

⁹ <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s69349/Paper%205.pdf>

cyfrwng Cymraeg ar sail y wybodaeth a ddaw i law yn ystod cyfnod gweithredu cynnar y cynnig o fis Medi 2017;

- parhau i gefnogi'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol gan gynorthwyo darparwyr i ehangu a dod yn hunangynhaliol, yn ogystal â chefnogi ehangu'r ddarpariaeth i greu 40 yn fwy o grwpiau meithrin gan dargedu manau wedi'i hadnabod trwy weithgarwch y Cynnig Gofal Plant lle mae'r ddarpariaeth yn dameidiog ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r ateb yw cyflenwi ac mae angen i ni ddeall y galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod buddsoddiad mewn lleoliadau newydd yn cael ei gyfeirio'n briodol. Nid oes gennym ddata cadarn ar faint o rieni plant tair a phedair oed cymwys sy'n gweithio a fyddai'n dymuno cael gofal plant cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd rhai canfyddiadau yn Arolwg Cenedlaethol 2016-17 a bydd Arolwg Cenedlaethol 2018-19 yn edrych ar hyn eto.

Mae gwaith ar droed i greu darlun cliriach o'r galw gan rieni am ofal plant cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol a data monitro awdurdodau lleol. Mae yna ofyniad penodol hefyd i ystyried effaith y cynnig ar y gallu i gael gfael ar ofal plant cyfrwng Cymraeg a'r galw amdano yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.

Cefnogaeth ar gyfer y Sector

Mae ein tystiolaeth yn dangos bod y sector gofal plant yn wynebu llawer o heriau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a bod angen buddsoddi mewn meithrin capasiti a gallu ledled y sector i gefnogi darparwyr i dyfu a gweithredu'n gynaliadwy. Wrth gydnabod yr heriau hyn rydym wedi blaenoriaethu cymorth ar gyfer y sector. Mae ein Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar a'n Cynllun Gweithredu Economaidd deng mlynedd (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017) yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y tymor Cynulliad hwn i helpu'r sector i feithrin y capasiti a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynnig gofal plant yn llawn a chefnogi twf economaidd ehangach.

Wrth geisio cyflawni'n huchelgais rydym yn gweithio ar ddatblygu cymorth busnes a chymorth sgiliau ar hyn o bryd. Rydym eisoes wedi ymrwymo £100,000 dros flynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20 i gefnogi'r darparwyr gofal plant hynny sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau peilot y gweithredwyr cynnar a'r rhai sydd am ehangu neu sefydlu busnes er mwyn manteisio ar y cyfleoedd newydd a ddarperir gan y cynnig gofal plant. Er mwyn cefnogi'r cyllid grant busnes o £100,000 a helpu darparwyr gofal plant i fantoli eu costau gweithredu, rydym wedi cynyddu'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar gyfer y sector o £12,000 i £20,500 ers 1 Ebrill eleni a byddwn yn edrych ar ba gymorth ychwanegol y gallwn ei ddarparu yn cynnwys ystyried Adolygiad Barclay ar Ardrethi Busnes a gynhaliwyd yn yr Alban yn 2017.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gyflwyno cyfres newydd o gymwysterau ar gyfer y sector sy'n canolbwyntio ar godi safonau a sgiliau a chefnogi'n huchelgais i uwchsgilio a phroffesiynoli'r sector. Bydd y cymwysterau'n cael eu cyflwyno ym mis Medi 2019 ac yn cwmpasu lefelau 2-5. Bydd ein rhaglen

Brentisiaethau'n darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cymwysterau newydd. O dan y rhaglen Brentisiaethau byddwn yn parhau i flaenoriaethu cymorth ar gyfer y sector gan ddechrau ar y lefel mynediad 2 cyfredol ac annog datblygiad i lefelau uwch.

Mae ein rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) yn darparu cymorth hyfforddiant i ymarferwyr dros 25 oed ac yn eu galluogi i wella sgiliau ar draws lefelau 2-3. Erbyn mis Hydref 2018, bydd y rhaglen wedi cefnogi o leiaf 950 o ymarferwyr ledled Cymru i wella eu sgiliau. Gan adeiladu ar lwyddiannau Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, rydym yn paratoi achos busnes i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ehangu'r rhaglen hyd 2023 o bosibl. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd i'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae cyfredol gynyddu ac ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Bydd y pecyn cymorth rydym yn ei gynnig yn ategu a gwella'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael drwy Brentisiaethau a rhaglenni sgiliau eraill.

Mae ein partneriaid yn allweddol i gyflawni a darparu ein huchelgais. Byddwn yn darparu cyllid o £1.6 miliwn i CWLWM, y consortiwm gofal plant sy'n cynrychioli'r 5 prif sefydliad gofal plant yng Nghymru, yn 2018-19 i helpu i gefnogi'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys darparu cymorth i ddatblygu a gweithredu'r cynnig gofal plant; cefnogi plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anghenion Dysgu Ychwanegol; datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector a chyfrannu at ein hadolygiad arfaethedig o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Rheoleiddio Gofal Plant.

Costau Blynyddol

Dim ond ers mis Medi diwethaf yr ydym wedi bod yn treialu'r cynnig mewn saith awdurdod lleol. Mae'n gynnwys iawn felly yn y broses o weithredu'r cynnig i roi amcangyfrif pendant o gost flynyddol y cynnig gofal plant pan fydd wedi'i weithredu'n llawn ledled Cymru yn 2020-21. Bydd amryw o ffactorau'n dylanwadu ar y costau, yn cynnwys nifer y plant sy'n cael eu geni mewn unrhyw flwyddyn, y nifer sy'n gymwys i dderbyn a'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig, a nifer yr oriau o ofal dydd y bydd teulu'n dewis eu defnyddio.

Proffil cyllideb refereniw cyfredol y Cynnig yw:

- 2017-18 - £10 miliwn
- 2018-19 - £25 miliwn
- 2019-20 - £45 miliwn

Bydd y cynnig yn cael ei weithredu'n genedlaethol yn 2020-21 sydd y tu allan i'r cylch cyllideb cyfredol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal gwaith modelu ar amrywiaeth o ragdybiaethau cyn hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nifer tebygol y plant cymwys ledled Cymru;
- Cyfradd manteisio debygol gan rieni cymwys;
- Nifer tebygol o oriau o'r hawl cyffredinol a ddefnyddir;
- Cyfradd genedlaethol debygol ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant a ariennir.

Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o weithredu cynnar yn awgrymu na fydd yr holl rieni cymwys yn manteisio ar y cynnig, ond mae cyfraddau'n amrywio rhwng Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Dim ond ychydig o ddata sydd ar gael ar y niferoedd cyfartalog sy'n defnyddio eu hawl gyffredinol i ofal plant a ariennir, ond mae'r data sydd ar gael yn awgrymu nad yw rhieni'n defnyddio'r holl oriau y mae ganddynt hawl iddynt wrth fanteisio ar y cynnig. Bydd angen treulio mwy o amser a chael rhagor o ddata i fireinio amcangyfrifon a rhoi barn gadarnach ar amrywiaeth bosibl y costau blynyddol llawn pan fydd y cynnig yn cael ei weithredu'n llawn.

Cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant

Bydd rhieni sy'n gweithio yn gymwys i gael elfen gofal plant y Cynnig:

- pan fo'r ddau riant yn gweithio neu pan mae'r unig riant yn gweithio mewn teulu ag un riant;
- pan fo'r ddau riant yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr yn ôl yr un gyfradd â'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol;
- pan fo'r rhieni'n hunangyflogedig neu ar gontractau dim oriau, ar yr amod eu bod yn gallu bodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion dros gyfnod o 3 mis;
- o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed tan y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed.

Nid oedd cap uchaf ar enillion yn ystod blwyddyn gyntaf y gweithredu cynnar. O ail flwyddyn y gweithredu cynnar ymlaen, os yw o leiaf un riant mewn cartref yn ennill £100,000 neu fwy y flwyddyn, ni fydd y teulu'n gymwys i gael yr oriau ychwanegol o ofal plant a ddarperir drwy'r Cynnig.

Gan gydnabod bod yna lawer o fathau gwahanol o grwpiau teuluol a bod eu sefyllfaoedd a'u hamgylchiadau'n gallu bod yn gymhleth weithiau, bydd y cyllid ar gael mewn amgylchiadau eithriadol eraill:

- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr yn ôl yr un gyfradd â'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb riant, mamolaeth neu fabwysiadu;
- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr yn ôl yr un gyfradd â'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol;
- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sydd o leiaf yn cyfateb i 16 awr yn ôl yr un gyfradd â'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol) a bod un riant yn anabl neu wedi'i analluogi yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol neu fod gan un riant gyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a geir am ofalu - mae hyn yn galluogi ac yn cefnogi un o'r rhieni yn y teulu hwnnw i weithio. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd lle mae un riant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a'r riant arall yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:
 - Budd-dal analluogrwydd
 - Lwfans gofalwyr
 - Lwfans anabledd difrifol
 - Lwfans cyflogaeth a chymorth
- lle bydd riant newydd ddod yn hunangyflogedig, ac o fewn y cyfnod dechrau cychwynnol. Bydd angen i rieni gofrestru eu busnes gyda Chyllid a Thollau EM a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys;
- gofalwyr sy'n berthnasau pan fyddant yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio;
- Plant sy'n Derbyn Gofal a leolir mewn gofal maeth pan fo'r gofalwr maeth yn

bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd ehangach, a phan fo hyn yn cyd-fynd â chynllun gofal y plentyn. Gellir defnyddio lwfans gofalu maeth fel tystiolaeth o enillion i fodloni'n gofyniad enillion isaf.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

14 Mawrth 2018

Annwyl Kirsty

Diolch i chi am eich diweddariad, a ddaeth i law ar 28 Chwefror 2018, yn dilyn eich ymateb i argymhelliad 7 y Pwyllgor yn ei adroddiad am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19.

Mae'n ymddangos bod eich ymateb yn cadarnhau bod y cyllid i gefnogi deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn wir yn cael ei dynnu o'r Grant Gwella Addysg ac y bydd yn cael ei ddarparu o'r Grant Cynnal Refeniw sydd heb ei neilltuo. Nododd y Pwyllgor eich diweddariad yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018 a phenderfynodd ysgrifennu atoch i godi nifer o bwyntiau ar y mater hwn.

Mae'r pwyntiau hyn yn ymwneud yn gyntaf â'r penderfyniad i ariannu'r maes darpariaeth hwn drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn hytrach na'r Grant Gwella Addysg, ac yn ail y drefn ar gyfer symud yr arian hwn o'r un grant i'r llall.

Y penderfyniad i ddadneilltuo ymhellach y cyllid ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig

Fel y gwyddoch o ymchwiliad y Pwyllgor ynghylch y ***Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig***, rydym yn pryderu am effaith ar y grwpiau hyn o ddisgyblion yn sgil cyfuno grantiau a oedd wedi'u neilltuo â'r Grant Gwella Addysg o 2015–16 ymlaen. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad o'r dystiolaeth a ddaeth i law, ar ôl uno'r grantiau unigol blaenorol â'r Grant



Gwella Addysg, fod diffyg gwaith monitro ynghylch sut y mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi deilliannau addysgol y dysgwyr hyn a diffyg gwerthusiad o'r effaith y mae'n ei chael.

Fe wnaethoch chi dderbyn nifer o'r argymhellion sydd wedi'u hanelu at wella'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Grant Gwella Addysg, yn benodol mewn perthynas â dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, fe wnaethoch chi ymrwymo i gryfhau fframwaith y Grant Gwella Addysg, gan dderbyn mewn egwyddor argymhelliad y dylai fframwaith o'r fath gyfeirio'n llawer mwy penodol at y deilliannau a fwriedir ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mai 2017, dywedoch:

Un o'r argymhellion rwy'n cytuno'n arbennig o gryf ag ef yw nad yw'r fframwaith perfformiad addysg presennol yn ddigon cadarn. Nid ydyw, yn syml, ac nid oedd modd cuddio rhag hynny yn ystod sesiynau'r pwyllgor. (...)

Mae ['adroddiad gwerthfawr' y Pwyllgor] wedi cryfhau fy ngallu i ysgogi pobl i weithredu yn yr adran, yn enwedig mewn perthynas â monitro.

Fodd bynnag, ymddengys na fydd y 'fframwaith canlyniadau mwy cadarn' hwn yn y dyfodol yn cynnig unrhyw fuddion i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, o ganlyniad i'r penderfyniad i dynnu'r cyllid perthnasol o'r Grant Gwella Addysg. Pan argymhellodd y Pwyllgor y dylech ystyried a yw cyflwyno'r Grant Gwella Addysg wedi gwella canlyniadau i'r grwpiau hyn o ddysgwyr a pharhau i gadw llygad ar y model cyllido yn ystod y Cynulliad hwn, nid oeddem yn rhagweld flwyddyn yn ddiweddarach y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddadneilltuo ymhellach ac y byddai disgwyl i awdurdodau lleol ei ariannu o'r Grant Cynnal Refeniw.



Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn 'ail-flaenoriaethu' cyllid llywodraeth leol drwy symud i ffwrdd o grantiau penodol tuag at y Grant Cynnal Refeniw, mae'r penderfyniad hwn yn ein siomi ac rydym yn credu ei fod yn mynd yn erbyn y trywydd a nodwyd yn eich ymateb i'n hymchwiliad.

